


# ADRODDIAD PLANED FYW 2022

## RHIFYN IEUENCTID
## CANLLAW I'N DYFODOL

# BETH YW'R ADRODDIAD PLANED FYW?

Caiff yr Adroddiad Planed Fyw ei gyhoeddi bob yn ail flwyddyn gan WWF, gydag chyfraniadau gan arbenigwyr blaenllaw a sefydliadau eraill. Mae'n wiriad o iechyd y blaned, yn dangos sefyllfa'r byd naturiol, y bygythiadau mae'n eu hwynebu a beth mae hyn yn ei olygu i ni fel bodau dynol. Mae'r casgliadau ac argymhellion yn yr Adroddiad Planed Fyw wedi'u seilio ar wahanol fesuriadau, ac un o'r mwyaf o'r rhain yw'r **Mynegai Planed Fyw**.




CYHOEDDIR Y CASGLIADAU YN YR ADRODDIAD PLANED FYW BOB YN AIL FLWYDDYN I LYWIO CADWRAETH, BUSNESAU A LLYWODRAETHAU

# BETH YW'R MYNEGAI PLANED FYW?

Mae arbenigwyr o gwmpas y byd wedi bod yn mesur newidiadau ym mhoblogaethau miloedd o rywogaethau anifeiliaid dros amser, o gyfrif nifer y gnw ar y safana, i gipio symudiadau oselotiaid (rhywogaeth o gath wyllt) ar gamerâu yng nghoedwig law yr Amazon. Mae gwyddonwyr yn dwyn y data hyn ynghyd mewn cronfa ddata ac yn eu dadansoddi er mwyn llunio'r Mynegai Planed Fyw (LPI).

Mae'r Mynegai ond yn defnyddio'r data ar gyfer rhywogaethau a gafodd eu monitro o leiaf dwywaith ers 1970, sef y flwyddyn a ystyrir fel y gwaelodlin. Er hynny, mae'r Mynegai'n gallu olrhain newidiadau mewn bron 32,000 o boblogaethau o 5,230 o rywogaethau gan gynnwys mamaliaid, adar, ymlusgiaid, amffibiaid a physgod. Mae'r patrymau a nodir gan y gwyddonwyr yn y data hyn yn eu helpu nhw i ddeall iechyd yr ecosystemau ehangach.







# PAM MAE HYN YN BWYSIG?

Mae ein planed fyw yn gweithredu fel system fyw, gan greu'r amodau ar gyfer bywyd sydd wedi caniatáu i fodau dynol a rhywogaethau eraill ffynnu: aer glân, dŵr croyw, atmosffer y gellir ei anadlu a'r amodau sydd eu hangen i dyfu bwyd. Mae'r amrywiaeth enfawr o rywogaethau yn rhan bwysig iawn o'r system hon. Nid yw'r blaned yn gallu gweithio yn yr un ffordd os yw meintiau bywyd gwyllt a lleoedd gwyllt yn cael eu lleihau, neu pan fydd tarfu ar symudiadau bywyd gwyllt neu lif prosesau naturiol.



## SYMUDIADAU BYWYD GWYLLT

Gall fod angen i anifeiliaid fudo pellteroedd maith ar draws glaswelltiroedd, ar draws moroedd, neu i fyny ac i lawr afonydd, er mwyn goroesi newidiadau tymhorol ac i gwblhau eu cylchoedd bywyd. Lle mae gweithgareddau pobl yn rhwystro hyn rhag digwydd, gall goroesiad y boblogaeth honno fod dan fygythiad, a cheir tarfu ar ecosystemau sy'n dibynnu ar eu symudiad hefyd. Mae ar rywogaethau eraill angen ardaloedd mawr i hela neu chwilota am ddigon o fwyd, ac os yw ffordd neu reilffordd yn croesi tirwedd, gall y rhywogaeth gael trafferth, hyd yn oed os na fydd maint y cynefin cyfan yn lleihau rhyw lawer. 'Darnio' yw'r enw a roddir ar hyn. Er enghraifft, mae ar deigrod angen tiroedd hela anferth, ond yn aml caiff y coedwigoedd lle maen nhw'n byw a hela eu darnio gan ffyrdd, gan achosi problemau.



## PROSESAU NATURIOL

Mae'r cylch dŵr a chynhyrchiad pridd yn enghreifftiau o brosesau naturiol pwysig.

Gellir tarfu ar systemau dŵr croyw gan argaeau sy'n rhwystro afonydd, gorddefnyddio dŵr mewn cartrefi ac ar ffermydd, a cholli'r coed a fyddai fel arfer yn arafu cyflymder dŵr glaw cyn iddo gyrraedd y tir.

Caiff pridd iach ei greu gan ecosystem gymhleth sy'n cynnwys bacteria microsgopig, pryfed, ffyngau, a phryfed genwair. Gall un llond llaw o bridd gynnwys mwy o organebau byw na sydd o bobl yn byw ar y Ddaear. Pan fyddant yn gweithio'n iawn, mae'r prosesau naturiol hyn yn datod deunydd marw fel dail, ac yn sicrhau bod y pridd yn llawn maetholion ac ocsigen. Fodd bynnag, gall y plaladdwyr a ddefnyddir ar gyfer ffermio niweidio ecosystem y pridd, a gall datgoedwigo arwain at ddiffyg deunydd planhigion er mwyn creu pridd newydd, a phridd wedi'i ddinoethi heb wreiddiau i'w ddal at ei gilydd yn cael ei olchi i ffwrdd gan y glaw.

## BIOAMRYWIAETH

**yw'r term a ddefnyddir i gyfeirio at yr holl bethau byw gwahanol sydd mewn ecosystem. Pan fydd gan ecosystem lawer o fioamrywiaeth, fel arfer mae'n gallu gwrthsefyll newid neu broblemau'n well. Gan fod cymaint o gysylltiadau a pherthnasoedd, mae pob peth byw yn fwy tebygol o ddod o hyd i ffordd arall o ymdopi os caiff un o'r rhain ei golli neu ei niweidio.[1]**

## NATUR YN DIRYWIO

Mae'r Mynegai Planed Fyw yn dangos bod poblogaethau bywyd gwyllt a astudiwyd o gwmpas y byd wedi dirywio 69% ar gyfartaledd, ac nid yw'r duedd hon yn arafu eto. Mae rhai wedi dirywio llawer mwy na hynny – gan gynnwys llawer o boblogaethau dŵr croyw. Achoswyd y dirywiad hwn mewn bywyd gwyllt a lleoedd gwyllt gan weithgareddau pobl gan fwyaf, megis datgoedwigo, ffermio ar raddfa fawr, llygredd ac adeiladu adeiladau a rhwydweithiau trafnidiaeth. Mae'r gweithgareddau hyn yn atal y system fyw rhag gweithio fel sydd arnom angen iddi wneud er mwyn diwallu anghenion y boblogaeth ddynol sy'n tyfu. Mae'r Mynegai yn un o lawer o ddangosyddion gwahanol sy'n cadarnhau bod bioamrywiaeth yn dirywio.

Ar graff o'r Mynegai sy'n dangos y newid mewn bioamrywiaeth ar ein planed, mae'r llinell wedi gostwng yn gyson ers 1970, ac mae poblogaethau anifeiliaid yn parhau i ddirywio. Mae'n hanfodol inni gymryd y camau sydd eu hangen i newid y duedd hon a 'phlygu cromlin' colli bioamrywiaeth. Golyga hyn nid yn unig atal y dirywiad, ond hefyd gwneud newidiadau sy'n caniatáu iddo ymadfer, fel bod y llinell ar ein graff yn gwyro i fyny ac mae bioamrywiaeth yn cynyddu i'r lefelau oedd gennym yn y gorffennol. Ni fydd hyn yn hawdd, ond os ydyn ni'n gweithredu'n gyflym a gan ddeall y ffordd mae gwahanol rannau o'r system fyw yn dibynnu ar ei gilydd, gallwn ddechrau gwneud y byd yn wyllt eto, ac felly'n iachach ac yn fwy cydnerth.

Yn ystod y degawdau diwethaf, mae gweithgareddau pobl wedi dinistrio coedwigoedd, glaswelltiroedd, gwlyptiroedd ac ecosystemau pwysig eraill o gwmpas y byd, gan fygwth llesiant pobl yn ogystal â bywyd gwyllt. **Nid yw hyn yn ffordd gynaliadwy inni fyw ar y blaned hon.**



## MYNEGAI CYFANRWYDD BIOAMRYWIAETH

Mae gwyddonwyr bellach yn monitro faint o fioamrywiaeth gyffredinol sydd ar ôl mewn gwahanol rannau o'r blaned o gymharu â faint oedd yn arfer bod yno. Yr enw ar y gwaith hwn yw'r Mynegai Cyfanrwydd Bioamrywiaeth (BII). Os yw mynegai ardal yn disgyn dan 90% nid yw'n gweithio cystal, gan achosi problemau i'r bywyd gwyllt ac i'r bobl sy'n dibynnu ar y dirwedd honno. Os yw'r mynegai'n disgyn i 30% neu'n is, mae cyn lleied o'r fioamrywiaeth ar ôl, mae perygl y bydd yr ecosystem yn methu. 89% yw mynegai Canada, sy'n awgrymu y gallai'r raddfa colli natur ddechrau effeithio ar weithrediad iach yr ecosystem. Yn y DU, mae'r Mynegai eisoes wedi gostwng i 50%.

## DATBLYGU CYNALIADWY

Caiff datblygu cynaliadwy ei ddiffinio gan y Cenhedloedd Unedig fel 'datblygu sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.' Mewn geiriau eraill, rhaid inni beidio â chymryd mwy o'r byd naturiol nag y gall y blaned ei roi yn ôl yn naturiol, neu rydyn ni'n ei gadael wedi'i niweidio ac yn llai abl i gyflenwi ein hanghenion ac anghenion eraill nawr ac yn y dyfodol.

# SBOTOLAU AR:
# SIARCOD A CHATHOD MÔR

Mae maint poblogaeth siarcod a chathod môr yn fyd-eang wedi gostwng 71% dros yr hanner canrif diwethaf, oherwydd arferion pysgota gan fwyaf.

Erbyn 2020, roedd mwy na thri chwarter o'r holl rywogaethau siarc a chath fôr (24 o 31) mewn perygl o ddifodiant.

**Mae niferoedd y siarc blaen-gwyn cefnforol (Carcharhinus longimanus) wedi dirywio 95% yn fyd-eang, a bellach nodir ei fod mewn perygl difrifol ar Restr Goch yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN).**

Siarcod a chathod môr yw'r prif ysglyfaethwyr mewn gweoedd bwyd cefnforol, ac mae eu colli yn gallu achosi problemau enfawr i rywogaethau eraill pan fydd yr ecosystem yn colli ei chydbwysedd.

Mae siarcod hefyd yn bwysig iawn i bobl mewn cymunedau sy'n dibynnu ar bysgota. Gall colli siarcod arwain at newid yn ymddygiad rhywogaethau eraill a fyddai fel arfer yn cyfyngu eu symudiadau a'u gweithredoedd er mwyn osgoi cael eu hysglyfaethu gan siarcod. Heb y siarcod, gall yr ysglyfaethwyr hyn leihau poblogaethau rhywogaethau eraill yn ddirfawr, gan arwain at rwydi pysgota gwag.





## WYDDOCH CHI?

**Ydych chi erioed wedi dod ar draws cwdyn lledraidd fel hwn ar draeth? Efallai eich bod chi wedi dod o hyd i 'bwrs y fôr-forwyn', sef yr enw a roddir ar blisg wyau rhai siarcod a chathod môr.**

**Er bod llawer o siarcod a chathod môr yn geni pysgod bach byw, mae eraill yn cuddio'r plisg wyau caled hyn mewn gwymon, lle mae'r rhai bach yn datblygu digon i allu gofalu amdanynt eu hunain.**

**Os dewch chi o hyd i un o'r rhain, gallwch helpu gwyddonwyr i fonitro poblogaethau siarcod a chathod môr trwy gofnodi eich darganfyddiad yn www.sharktrust.org/great-eggcase-hunt**






© NATUREPL.COM / JEFF ROTMAN / WWF

# YR ARGYFWNG DWBL BYD-EANG


Mae newid hinsawdd yn cael ei drafod mwy na cholli bywyd gwyllt a chynefinoedd, ond mae cysylltiad cryf rhwng y ddau argyfwng.



## COEDWIGOEDD

Mae coedwigoedd iach yn tynnu carbon o'r atmosffer fel CO2 a'i gloi mewn coed a phridd.


Mae newid hinsawdd yn cynyddu'r risgiau o danau coedwig a phlâu ymledol, sy'n arbennig o niweidiol i goedwigoedd a ddarniwyd oherwydd gweithgareddau pobl.




## MOROEDD

Mewn ecosystem forol sy'n ffynnu, caiff carbon ei dynnu o'r atmosffer gan ffytoplancton, ei storio mewn biomas bywyd gwyllt, cyn suddo i wely'r môr fel pw a malurion.

Mae newid hinsawdd yn bygwth cynefinoedd allweddol sy'n hanfodol ar gyfer cynnal ecosystemau morol – fel riffiau cwrel.




Mae'r niwed a achosir i'r byd naturiol drwy ddinistrio cynefinoedd yn lleihau gallu ein planed i dynnu carbon o'r atmosffer, ac mewn llawer o achosion, yn rhyddhau mwy o garbon nag oedd wedi'i storio'n flaenorol fel pren neu yn y pridd. Mae hyn yn golygu bod mwy o garbon deuocsid yn mynd i mewn i'r atmosffer sy'n cyflymu'r broses o gynhesu byd-eang.

Mae newid hinsawdd eisoes yn dechrau cael effaith ar y byd naturiol, ac os caiff y cynnydd cyfartalog mewn tymheredd byd-eang fynd dros 1.5 gradd, bydd newid hinsawdd yn fwy a mwy o fygythiad i fywyd gwyllt.

**Ni allwn ddatrys y naill broblem na'r llall heb fynd i'r afael â'r ddwy ohonynt gyda'i gilydd.**



!

Mae llawer o rywogaethau dan fygythiad oherwydd y nifer gynyddol o achosion o dywydd poeth a sychder sy'n ganlyniad i dymereddau uwch yn fyd-eang. Yn ystod tywydd poeth yn Awstralia ym mis Tachwedd 2018,

# BU FARW O LEIAF 23,000 O YSTLUMOD FFRWYTHAU OHERWYDD Y GWRES MEWN DAU DDIWRNOD

gan leihau eu poblogaeth yn y wlad bron traean.

# TRAWSNEWID EIN PERTHYNAS Â'N PLANED

## O HYN...

### NEWID HINSAWDD


Mae'r Ddaear wedi cynhesu 1.2°C ers y cyfnod cyn-ddiwydiannol, ac ni fydd gweithgareddau presennol pobl ac addewidion gwleidyddol yn llwyddo i'w hatal rhag cynhesu mwy na 2°C. Y tu hwnt i 1.5°C bydd cynhesu byd-eang yn achosi problemau enfawr i bobl ac i natur[2].



### LLYGREDD

Caiff 300-400 miliwn o dunelli o lygredd eu gollwng i ecosystemau dŵr croyw bob blwyddyn[3].

Mae llygredd plastig yn y cefnforoedd wedi cynyddu o ddeg gwaith ers 1980, ac yn effeithio ar fwy na 267 o rywogaethau erbyn hyn – gan gynnwys 86% o'r crwbanod môr[4].





### COLLI CYNEFINOEDD


Mae 75% o arwynebedd y tir heb iâ ar y Ddaear wedi'i newid gan bobl, er mwyn creu ffermdir ar gyfer cynhyrchu bwyd gan fwyaf. Collwyd 90% o'r ardaloedd gwlyptirol yn fyd-eang. Caiff oddeutu 100,000 km sgwâr o goedwig eu colli bob blwyddyn, neu faint cae pêl-droed bob dwy eiliad[5].



## DATA BYWY
## A HINS

### DIFODIANT BYWYD GWYLLT

Mae miliwn o rywogaethau yn wynebu bygythiad difodiant, llawer ohonynt yn ystod y degawdau nesaf [6].



### DARNIO CYNEFINOEDD

Amharir ar brosesau naturiol wrth i gynefinoedd ar y tir, yn y môr ac mewn dŵr croyw gael eu darnio.

# ...I BLANED FYW IACH SY'N GWEITHIO DROS...



## NATUR

Mae cysylltiadau rhwng cynefinoedd gwarchodedig ac adferedig yn caniatáu i rywogaethau bywyd gwyllt symud ac i brosesau naturiol lifo.



YD GWYLLT
SAWDD



## POBL

Rheoli adnoddau naturiol yn deg ac yn gyfiawn er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu cael bwyd iach a byw mewn amgylchedd sefydlog.

Cadwraeth wedi'i harwain a'i llywio gan bobloedd brodorol.

Mae'r cymunedau mae newid hinsawdd a cholli natur wedi effeithio arnynt fwyaf yn cymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau, ac yn cael cymorth i addasu.



## HINSAWDD

Torri allyriadau carbon byd-eang trwy symud at ddefnyddio ynni adnewyddadwy ac arferion cynaliadwy. Cynhesu byd eang heb fod yn fwy na 1.5 gradd.

# WYDDOCH CHI?

**Yn 2021, dywedodd Cyngor Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig bod gan bawb, ym mhobman, yr hawl i fyw mewn amgylchedd glân, iach a chynaliadwy.**

# SBOTOLAU AR:
# YR AMAZON

Mae'r Amazon yn gartref i goedwig law fwyaf y byd, yn gorchuddio 6.7 miliwn o gilometrau sgwâr ar draws naw gwlad yn America Ladin, ac yn cynnwys afon fwyaf y byd (yn ôl cyfaint y dŵr). **Mae'r Amazon yn hollbwysig i fioamrywiaeth fyd-eang, ac yn gartref i o leiaf 10% o'r holl rywogaethau anifeiliaid a phlanhigion ar y blaned.** Mae hefyd yn hollbwysig i bobl - nid dim ond y 30 miliwn o bobl sy'n byw yno (gan gynnwys oddeutu 3 miliwn o bobloedd brodorol), ond i bobl ar draws y byd.

Mae'r Amazon yn darparu bwyd, pren a meddyginiaethau, ac yn helpu i sefydlogi'r hinsawdd trwy ddal carbon o'r atmosffer. Hefyd, mae'r coed yn yr Amazon yn rhyddhau 20 biliwn o dunelli o ddŵr i'r atmosffer bob dydd, gan yrru systemau tywydd pwysig sydd, yn eu tro, yn dosbarthu dŵr croyw i dirweddau ar draws y byd.

Collwyd 17% o'r gorchudd coedwig yn yr Amazon oherwydd torri coed ar gyfer pren, neu droi'r goedwig yn ffermdir, ac mae 17% arall ohono wedi'i ddiraddio . Dywedir bod tir 'wedi'i ddiraddio' pan nad yw wedi cael ei ddatgoedwigo'n llwyr, ond mae wedi colli rhywfaint o'i lystyfiant ac nid yw'n gallu cynnal yr ecosystem gymaint ag o'r blaen.

Mae gwyddonwyr yn dweud os ydyn ni'n parhau i ddinistrio'r Amazon ar y gyfradd hon, cyn bo hir byddwn ni'n cyrraedd pwynt tipio, lle na fydd y goedwig yn gallu gweithio yn yr un ffordd mwyach. Bydd y blaned gyfan yn colli buddion yr Amazon, a fydd yn raddol yn mynd yn ecosystem fwy sych a llai bioamrywiol, yn debyg i safana (gwastadedd glaswelltog gydag ychydig o goed).




## POBLOEDD BRODOROL

Ystyr pobloedd brodorol yw trigolion dynol cyntaf ardal, sydd â thraddodiadau a diwylliant yn gysylltiedig â thirwedd oherwydd bod ganddynt genedlaethau o hanes yno. 'Pobloedd' yw'r enw, yn hytrach na 'phobl', am ei fod yn cyfeirio at lawer o grwpiau gwahanol.

Mae pobloedd brodorol yn bwysig iawn i unrhyw ymdrech i warchod bywyd gwyllt, am mai nhw yn aml sydd â'r ddealltwriaeth orau o'r ecosystem a sut i dynnu buddion o dirwedd heb dorri'r cydbwysedd naturiol. Yn aml, mae'r anawsterau a achosir gan ddefnyddio adnoddau tirwedd yn anghynaliadwy yn cael yr effaith fwyaf arnyn nhw, er nad nhw sydd ar fai am yr arferion hyn a'r problemau a ddaw yn eu sgil. Golyga hyn bod rhaid inni barchu a hyrwyddo hawliau Pobloedd Brodorol yn ogystal â gwarchod bywyd gwyllt.


Ers 2007 mae mwy na 140 o wledydd y byd wedi cytuno i barchu ac amddiffyn hawliau Pobloedd Brodorol, fel y nodir yn Natganiad y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobloedd Brodorol[8].

Mae sefydliadau Pobloedd Brodorol yr Amazon, sy'n cynrychioli 511 o genhedloedd a chynghreiriaid, yn galw am gytundeb byd-eang i warchod 80% o'r Amazon yn barhaol erbyn 2025. Caiff hyn ei ystyried yn weithred frys sydd ei hangen i'n hatal ni rhag cyrraedd pwynt tipio dinistrio'r Amazon a'r problemau enbyd y byddai hynny'n eu hachosi i'r blaned[9].




## PWYNT TIPIO

Mae pwynt tipio'n cyfeirio at y pwynt lle caiff newidiadau mawr eu sbarduno a allai fod yn amhosibl i'w gwrthdroi. Gallwch feddwl amdano fel gwthio carreg fawr dros ben bryn, lle bydd yn dechrau rholio lawr yr ochr arall ac efallai y bydd yn amhosibl i'w stopio.



# BETH MAE HYN YN EI OLYGU I MI?

Gallwn deimlo'n fach iawn yn wyneb y materion mawr hyn, ac mae hynny'n gallu poeni rhywun. Ond dydyn ni ddim yn ddiymadferth, a dydyn ni ddim ar ein pennau ein hunain.

**Gall pawb chwarae rhan yn y broses o lunio dyfodol cadarnhaol i bobl ac i natur. Ac mae hynny'n eich cynnwys chi!**


Gwyddom fod y ffordd mae pobl yn byw ar ein planed ar hyn o bryd yn anghynaliadwy, a bod rhaid newid. Ond nid yw gwedd y dyfodol wedi'i diffinio eto. Rhaid i ni i gyd sicrhau ein bod ni'n llunio'r byd rydyn ni ei eisiau - lle mae anghenion pobl a natur yn cael eu diwallu mewn ffordd sy'n deg i bawb.

Pobl yw'r datryswyr problemau gorau sydd erioed wedi byw ar ein planed, ac nid yw mynd i'r afael â materion fel newid hinsawdd, colli bioamrywiaeth a llygredd plastig dim ond yn golygu bod rhaid inni aberthu pethau rydyn ni'n eu mwynhau heddiw. Os defnyddiwn ni ein dychymyg a gweithio gyda'n gilydd, gallwn ail-ddychmygu ein perthynas â'r blaned fyw hon a mwynhau bwyd blasus, teithio a gweithgareddau hwyliog mewn amgylchoedd hardd, heb dynnu unrhyw beth i ffwrdd o'r bywyd gwyllt a'r bobl sy'n rhannu ein planed.

Dydyn ni ddim yn ddiymadferth! Gallwn wneud i newid ddigwydd yn gyflymach, ac yn y ffordd a fydd yn llunio'r dyfodol cadarnhaol rydyn ni ei eisiau.

Mae gennych chi fwy o ddylanwad nag yr ydych yn sylweddoli. Meddyliwch am y bobl y gallai'r hyn a ddywedwch ac a wnewch gael effaith arnynt. Eich teulu efallai, eich ffrindiau neu'ch dilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol. Yna meddyliwch am y systemau y gallwch chi ddylanwadu arnynt - eich ysgol, busnesau lleol, neu hyd yn oed y penderfyniadau a wneir yn eich cymuned leol, dalgylch neu sir. Mae pob person rydych chi'n ei ysbrydoli i weithredu yn anfon ei donnau o newid ei hun trwy ei gylch dylanwad ei hun. Cofiwch - os gallwch chi ddod ynghyd ag eraill sy'n teimlo'r un peth, bydd gennych lais uwch, mwy o ddylanwad a mwy o effaith.

## MAE YNA BETHAU Y GALLWN NI EU GWNEUD YN SYTH I DDECHRAU DYLANWADU AR NEWID.



1

### GWNEUD DEWISIADAU GWYBODUS

Pan fyddwch yn deall y problemau sy'n effeithio ar ein planed fyw, a'u hachosion, gallwch wneud dewisiadau ynghylch beth rydych chi'n ei wneud, ei brynu a'i fwyta sy'n dda i bobl ac i natur. Cymerwch eich amser i edrych am wybodaeth ar becynnau sy'n dweud wrthych chi beth sydd ynddo, o ble ddaeth ei gynhwysion, ac os cafodd ei gynhyrchu mewn ffordd sy'n dda i'r blaned. Er enghraifft, os yw'n cynnwys olew palmwydd, ydy'r olew palmwydd hwnnw wedi dod o ffynhonnell gynaliadwy? Os na, gallai'r cynnyrch gynnwys olew palmwydd a dyfwyd trwy glirio coedwig law i dyfu coed palmwydd ar y pridd ffrwythlon.



2

### SIARAD I FYNY

Mae protestio'n heddychlon, ysgrifennu blog, ysgrifennu i bapur lleol neu rannu eich meddyliau gyda phenderfynwyr a busnesau lleol yn bethau y gallwch chi eu gwneud i ddylanwadu ar eraill. Cofiwch y gallai'r bobl rydych yn dylanwadu arnynt gael mwy o effaith trwy eu dewisiadau a'u gweithredoedd na chi.



## 3

## RHOI HELP LLAW I NATUR

P'un ai ydych yn byw yng nghanol dinas, ar lan y môr, neu yng nghefn gwlad, mae eich milltir sgwâr chi yn rhan o dirwedd fyw gysylltiedig, ac mae'r blaned gyfan yn cael budd pan fydd yn cynnal bywyd gwyllt. Ewch allan i weld pa fywyd gwyllt sy'n rhannu eich amgylchedd lleol, cofnodwch beth sydd yno er mwyn helpu gwyddonwyr i fonitro iechyd ein planed fyw, ac edrychwch i weld beth allwch chi ei wneud i helpu bywyd gwyllt lleol i ffynnu. Allech chi blannu mwy o goed, neu greu cynefinoedd newydd fel pwll dŵr, tomen goed neu flwch adar?

Defnyddiwch yr ap Seek by iNaturalist rhad ac am ddim i adnabod, cofnodi a chyflwyno'r data pan fyddwch yn gweld bywyd gwyllt, a gallwch helpu gwyddonwyr i fonitro bioamrywiaeth fyd-eang.



## 4

## CYNLLUNIO LLWYBR GYRFA CYNALIADWY

Gall pob swydd a sefydliad fod yn gynaliadwy, ac mae'n rhaid iddynt fod. Trwy wella eich gwybodaeth a'ch sgiliau ym maes cynaliadwyedd, gallwch baratoi eich hun i ddewis a llwyddo mewn gyrfa sy'n dda i chi ac i'r blaned.

# YN BENNAF OLL, COFIWCH NAD YDYCH CHI AR EICH PEN EICH HUN.

**Mae'r byd yn dechrau deffro. Efallai y byddwn ni eisiau i bethau symud yn gyflymach, ac efallai yr hoffem iddynt fod wedi symud llawer yn gynharach, ond mae arweinwyr y byd yn trafod sut i ddatrys y problemau a wynebwn, ac yn cydnabod y wyddoniaeth sy'n dweud pa mor gyflym mae'n rhaid inni newid. Mae gan bawb ohonom y cyfle i helpu i'r newid hwnnw ddigwydd yn gyflym, a sicrhau bod y dyfodol gorau posibl i bobl a natur yn cael ei lunio.**



# NODYN AR DROEDNODIADAU

Lle mae'r adroddiad hwn yn rhoi ffeithiau sy'n hysbys oherwydd astudiaethau gwyddonol, yn aml caiff ffynhonnell y ffaith honno ei rhoi fel 'troednodyn'. Pan fyddwch yn darllen neu'n clywed ffaith a allai lunio'ch syniadau neu'ch gweithredoedd, mae'n bwysig iawn eich bod chi'n gallu gwirio ei bod hi wedi'i seilio ar dystiolaeth o ffynhonnell ddibynadwy. Weithiau gall pobl, busnesau a llywodraethau hyd yn oed gael budd o guddio'r gwir am fater os oes perygl y gallent gael eu dal yn gyfrifol am broblemau, neu gael eu gorfodi i weithredu er mwyn mynd i'r afael â mater sy'n costio arian iddynt. Byddwch yn wyliadwrus o 'ffeithiau' sydd wedi'u rhannu i gefnogi dadl mewn erthygl, araith, fideo neu bost ar y cyfryngau cymdeithasol. Os nad yw'r ffynhonnell wedi'i nodi, neu os yw'n ffynhonnell ag enw am beidio â bod yn wyddonol, ni ddylech dderbyn y ffaith heb wirio drosoch chi'ch hun a yw'n wir neu beidio.

## TROEDNODIADAU

[1] www.ourplanet.com/en/video/what-is-biodiversity/

[2] Gwasanaeth Newid Hinsawdd Copernicus yr Undeb Ewropeaidd https://climate.copernicus.eu/copernicus-globally-seven-hottestyears-record-were-last-seven Cyrchwyd 19/01/22

[3] Adroddiad asesu byd-eang IPBES (2019) ynghylch gwasanaethau bioamrywiaeth ac ecosystemau'r Llwyfan Gwyddoniaeth-Polisi Rhynglywodraethol ar Wasanaethau Bioamrywiaeth ac Ecosystemau. ES Brondizio, J Settele, S Díaz & HT Ngo (golygyddion).

[4] IPBES (2019): Summary for policymakers of the global assessment report on biodiversity and ecosystem services of the Intergovernmental Science-Policy Platform on Biodiversity and Ecosystem Services

[5] Living Planet Report 2020, WWF a'i bartneriaid

[6] 500,000 o anifeiliaid a phlanhigion, a 500,000 o bryfed

[7] Science Panel for the Amazon (2021). Executive Summary of the Amazon Assessment Report 2021. C. Nobre & A. Encalada, et al. United Nations Sustainable Development Solutions Network https://www.theamazonwewant.org/amazon-assessment-report-2021/

[8] Datganiad y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobloedd Brodorol: https://www.un.org/development/desa/indigenouspeoples/wp-content/uploads/sites/19/2018/11/UNDRIP_E_web.pdf
Fersiwn pobl ifanc: https://www.un.org/development/desa/indigenouspeoples/publications/2013/09/adolescent-friendly-version-of-the-un-declaration-on-the-rights-of-indigenous-peoples/

[9] https://amazonia80x2025.earth/

Delweddau clawr blaen o'r brig, clocwedd: © Greg Armfield / WWF-UK, © Yoon S. Byun / WWF-US, © Alexis Rosenfeld, © Luis Barreto / WWF-UK, © Andy Isaacson / WWF-US, © naturepl.com / Anup Shah / WWF, © Marcus Westberg / WWF, © Kyle Isherwood, © Andre Dib / WWF-Brazil, © David Bebber / WWF-UK, © Andrés Unterlasdtaetter / WWF-Bolivia, © Marizilda Cruppe / WWF-UK, © Chris Martin Bahr / WWF
Darluniau: © Harriet Gardiner

Am ddyfodol lle mae pobl a natur yn ffynnu | wwf.org.uk
Symbol panda ©1986 a Nod Masnach Gofrestredig WWF ®"WWF". Mae WWF-UK yn elusen gofrestredig (1081247) ac yn yr Alban (SC039593). Cwmni cyfyngedig drwy warrant (4016725)

wwf.org.uk